

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Craffu Perfformiad

Dyddiad: 21 Ionawr 2022

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 27 IONAWR 2022 am 10.00 am TRWY CYFRWNG FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 (copi ynghlwm).

**10.05 am – 10.10 am**

**5 CYNNYDD AR GYFLAWNI STRATEGAETH DAI A DIGARTREFEDD SIR DDINBYCH** (Tudalennau 15 - 72)

Ystyried adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio Strategol a'r Swyddog Tai (copi ynghlwm) ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar gyflawni'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Tai a Digartrefedd diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ym mis Rhagfyr 2020.

**10.10 am – 10.40 am**

**6 SAFONAU A PHERFFORMIAD Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD** (Tudalennau 73 - 96)

Ystyried adroddiad gan y Prif Lyfrgellydd (copi ynghlwm) yn nodi manylion perfformiad y Cyngor mewn perthynas â 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020 (sydd wedi'i ymestyn i 2020-2021) a'r cynnydd a wnaed o ran datblygu llyfrgelloedd fel manau lles a gwytnwch unigol a chymunedol.

**10.40 am – 11.10 am**

~~~~~ **EGWYL** ~~~~~

**7 LLEIHAU'R DEFNYDD O BLASTIGAU UNTRO A LLEIHAU CARBON YN Y GWASANAETH PRYDAU YSGOL** (Tudalennau 97 - 102)

Ystyried adroddiad gan y Prif Reolwr Arlwyo a Glanhau (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddiad ar y cynnydd, a'r heriau, mewn perthynas â lleihau'r defnydd o blastigau untro a lleihau carbon o fewn y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion.

**11.20 am – 11.50 am**

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 103 - 124)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**11.50 am – 12.05 pm**

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor am wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**12.05 pm**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Arwel Roberts (Cadeirydd)

Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard  
Martyn Holland  
Geraint Lloyd-Williams  
Bob Murray  
Paul Penlington

Pete Prendergast  
Peter Scott  
Andrew Thomas  
David Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn tbc, Dydd Iau, 25 Tachwedd 2021 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray, Pete Prendergast, Arwel Roberts (Cadeirydd), Peter Scott, Andrew Thomas a/ac David Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray, Pete Prendergast, Arwel Roberts (Cadeirydd), Peter Scott, Andrew Thomas a David Williams

#### **Hefyd yn y cyfarfod –**

Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol ar gyfer Eitemau 5 a 6

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer Eitem 7

Y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd ar gyfer Eitem 8

#### **Arsylwyr –**

Cynghorwyr Huw Williams, Tony Thomas, Gwynedd Kensler a Meirick Lloyd Davies.

### HEFYD YN BRESENNOL

Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau; Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Liz Grieve, Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata; Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad; Peter Daniels, Rheolwr Adain Cludiant Teithwyr; Ffion Angharad, Rheolwr Gwella Gwasanaethau; Rhian Evans, Cydlynnydd Craffu; Rhodri Tomos-Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau a Sharon Walker, Gweinyddwr Pwyllgorau.

## **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Graham Boase.

## **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dim.

### **3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021 fel cofnod cywir.*

### **5 DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL, CHWARTER 2, 2021 I 2022**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad Diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol. Chwarter 2, 2021-2022 (a ddsbarthwyd yn flaenorol).

Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 2 (Gorffennaf i Medi 2021), 2021 i 2022 mewn perthynas â chyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.

Roedd adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella. Roedd adroddiadau perfformiad chwarterol yn cael eu rhannu â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA), y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn rheolaidd.

Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Corfforaethol, roedd disgwyl i'r mwyafrif helaeth o beth y gobeithiwyd y byddai'n cael ei ddarparu, gael ei wneud yn llwyddiannus. Rhedodd rhai o'r prosiectau drosodd oherwydd effaith covid, ond byddant yn cael eu darparu. Roedd yn gynllun uchelgeisiol. Byddai gwersi'n cael eu dysgu, ac roedd aelodau arweiniol a swyddogion yn dechrau edrych ymlaen at sut beth fyddai cynllun corfforaethol newydd i gyngor newydd.

Roedd dau fesur, Cysylltu Cymunedau a Phobl Ifanc, yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer eu gwella, oherwydd y bu dibyniaeth ar bartïon eraill.

Yn nhermau prosiectau eraill, roedd pob un o statws da neu uwch. Roedd y Bwrdd Cynllun Corfforaethol yn parhau i fonitro darpariaeth y Cynllun wrth symud ymlaen, a'r trosglwyddiad i'r Cynllun Corfforaethol newydd.

Rhododd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Iolo McGregor, drosolwg cryno o'r Cynllun. Cyflwynodd yr adroddiad perfformiad blynyddol diwethaf a ddaethpwyd gerbron y Pwyllgor Craffu elfennau newydd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a wnaeth yr adroddiad cyfredol llawer mwy cynhwysfawr.

Yn ystod trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol:



- Cadarnhawyd bod cofrestr ULIMaD yn bryder a allai ei graffu. Roedd Addysg a Phobl Ifanc yn bryder hefyd gan fod Craffu eisoes wedi derbyn adroddiadau gan yr Adran Addysg.
- Gofynnwyd am eglurhad o ran Dementia, ac a oedd staff wedi'u hyfforddi i arsylwi unrhyw broblemau sydd gan breswylwyr a sut byddant yn eu hadrodd.  
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, y byddai'n rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau.
- Cadarnhawyd na fyddai 150 eiddo gwledig yn gallu cael mynediad i Fand Eang Cyflym Iawn, a bod gwaith yn parhau gyda'r Swyddog Digidol a BT Openreach i ddatrys y broblem.  
Mae cyllid wedi cael ei sicrhau ar y cyd rhwng Cadw a Llywodraeth Cymru (LIC) i gyflogi ail Swyddog Digidol.
- Roedd Tai Fforddiadwy i'w gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol newydd i asesu'r holl faterion ynghylch y gwahaniaeth mewn cyflogau ledled y sir.
- Risgiau'r Prosiect – y Gymraeg neu ddiwylliant Cymru, a yw'r rhain wedi cael eu hystyried fel risg oherwydd covid?  
Eglurodd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad os y bu dirywiad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru oherwydd covid, yna byddai hynny'n fater ar gyfer y Gofrestr Risgiau Cymunedol a fyddai'n cael ei fonitro gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Eglurodd bod y gwaith wedi cael ei gynnal i ddiweddarau Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych, ac roedd adrannau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddiwylliant a threftadaeth, ac y byddai'n ymgynghori gyda'i gydweithiwr i sicrhau a oedd effaith covid ar y Gymraeg wedi'i adlewyrchu yno.
- Gofynnwyd a fyddai'r siwrnai at fod yn ddi-garbon yn risg.  
Cadarnhawyd ei fod yn risg i'r Cyngor gan ei bod yn raglen waith mawr a chostus iawn, roedd yn raglen waith hir iawn hefyd. Roedd yn cael ei adlewyrchu ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor fel yr eitem nesaf ar y Rhaglen.

Penderfynodd y Pwyllgor -

*I dderbyn a chadarnhau cynnwys yr adroddiad, yn amodol ar yr arsylwadau uchod, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, ac unrhyw gamau gweithredu pellach a oedd angen ymateb i faterion yn ymwneud â pherfformiad a amlygwyd yn yr adroddiad.*

## **6 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL, MEDI 2021**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Medi 2021 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth oedd yn datblygu a pherchen ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ochr yn ochr â'r Cabinet. Cafodd ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn frifio'r Cabinet. Cafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r diwrnod blaenorol hefyd.

Nododd y Cynghorydd Thompson-Hill bod dwy risg newydd wedi'u huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn crynhoi'r Risgiau o fewn y Gofrestr.

Roedd risgiau 18 a 35 yn mynd i gael eu cyfuno wrth symud ymlaen, a byddai'r sgôr yn debygol o gynyddu o D2 i C2.

Mynegodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad ei ddiolch i Emma Horan, y Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad am ei gwaith wrth gwrdd â Pherchnogion Risg a'r Tîm Arwain Strategol i lunio diweddariad cynhwysfawr iawn.

Roedd adolygiad archwilio mewnol diweddar mewn perthynas â rheoli risg wedi cael ei gynnal, ac argymhellion o'r archwiliad wedi cael eu cyflwyno. Un o'r argymhellion oedd cynnwys cyfeiriad ar gyfer siwrnai bob risg. Roedd gwaith i'w wneud o hyd o ran hynny, a fyddai'n cael ei symud ymlaen i'r adolygiad nesaf.

Yn ystod trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol:

- Recriwtio a chadw staff – Cadarnhawyd bod recriwtio a chadw staff wedi dod yn fater sylweddol, nid yn unig o fewn Cyngor Sir Ddinbych, ond ar hyd y wlad.  
Roedd gan Covid effaith sylweddol ar staffio. Roedd darn o waith yn cael ei gynnal ar gyfer pob Gwasanaeth i gael Cynllun Gweithredu Cynllunio'r Gweithlu, a fyddai'n bwydo i mewn i Gynllun Gweithredu Sir Ddinbych. Bu problemau o ran recriwtio mewn Gwasanaethau penodol, yn enwedig o fewn Gofal Cymdeithasol a Gofal Cartref. Byddai'r Awdurdod yn edrych ar y gallu i greu swyddi graddfa gyrfa i ddatblygu talent mewnol. Mewn rhai meysydd, gallai gymryd amser i hyfforddi gweithwyr, a allai achosi problemau yn y tymor byr. Roedd adroddiad ar fin cael ei ddarparu yn y Flwyddyn Newydd.
- Roedd Deddf Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi gosod nifer o ofynion ychwanegol ar y Cyngor.  
Bu oedi wrth dderbyn canllawiau manwl, a oedd yn tanategu disgwyliadau newydd a ffyrdd o weithio, a fyddai angen polisïau a gweithdrefnau datblygol wrth symud ymlaen. Yn anffodus, ni fyddai cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer mynd i'r afael â'r gofynion newydd, ac o ganlyniad, roedd y sgôr y Risg yn gywir.
- Awgrymwyd y byddai trosedd seiber yn cael ei amlygu fel risg.  
Ar hyn o bryd, nid oedd yn cael ei rhestru ar wahân fel risg, ond roedd yn cael ei chynnwys o ran a oedd gan y Cyngor yn gallu i ymateb i ddigwyddiadau mawr, gan gynnwys amhariadau a achosir gan ddigwyddiadau o dywydd garw, ac ati. Cam Gweithredu: Bydd lolo McGrgeor yn sicrhau bod Trosedd Seiber yn cael ei thrafod gyda pherchennog y risg yn ystod adolygiad mis Chwefror o'r gofrestr i roi mwy o bwyslais arni.
- Risg 44 – Clefyd Coed Ynn – roedd y risg wedi sgorio'n uchel oherwydd peidio deall graddfa'r broblem.  
Ers i hyn ddod yn risg, gwnaed darn o waith i ddeall yn well beth oedd y cyngor yn ei wynebu. Roedd wedi cael ei israddio oherwydd hyder a gwybodaeth swyddogion bod y risg yn ymddangos yn amlach. Serch hynny, roedd risg B2 yn parhau i fod yn risg gritigol.
- Roedd terfynu contract Civica gyda Chyngor Sir Ddinbych yn cael ei ystyried yn risg.  
Cadarnhawyd bod Civica wedi penderfynu tynnu nôl o'r math o gontract partneriaeth oedd ganddynt gyda Sir Ddinbych, a byddai ar y Gofrestr Risg Gwasanaeth Cyllid, ond roedd yn rhan o Risg 13 y Gofrestr hefyd.

- Byddai colli cyllid Ewropeaidd yn cael ei gynnwys dan Cofrestr Risg Brexit ar wahân, a oedd yn cael ei fonitro'n agos gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol. Disgwylwyd y byddai'r risgiau ar y gofrestr ar wahân hon yn cael eu cynnwys ar y brif Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod yr adolygiad nesaf ym mis Chwefror.
- Roedd Risg 47 yn ymwneud â phwerau i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol rhanbarthol yn bryder i bob awdurdod lleol ledled Gogledd Cymru.

Penderfynodd y Pwyllgor -

*i dderbyn adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Medi 2021, ar ôl ystyried y diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1), gan gynnwys statws bob risg yn erbyn Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg yr Awdurdod (atodiad 2), a'r sicrwydd a ddarparwyd yn ystod y drafodaeth.*

**Ar yr adeg hon (11.10 am) cafwyd egwyl o 10 munud.  
Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.20 a.m.**

## **7 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM C360 CRM (SYSTEM RHEOLI CYSYLLTIADAU CWSMERIAID)**

Cyflwynodd y Cyng. Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am System Rheoli Cyswllt Cwsmer C360 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Darparodd y Cyngorydd Hilditch-Roberts drosolwg o weithrediad y system Rheoli Cyswllt Cwsmer C360, a'i berfformiad mewn perthynas â manyleb y cynnyrch. Roedd yr adroddiad yn amlinellu defnydd gwasanaethau'r cyngor o C360 hefyd fel system Rheoli Cyswllt Cwsmer corfforaethol neu ddatrysiad cyswllt cwsmeriaid integredig, a'u galw parhaus ar gyfer ffurflenni ymholiadau cwsmer newydd.

Roedd hyfforddiant ar gyfer y system wedi cael ei gynnal, gyda 90% o staff a 14% o Gynghorwyr yn cymryd rhan.

Yn ystod trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol:

- Derbyniodd Aelodau adroddiad wythnosol, ond bu cwynion oherwydd roedd eitemau yn yr adroddiad a oedd wedi cael eu datrys am dros 12 mis. Roedd rhai eitemau a adroddwyd nad oedd wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiadau wythnosol y derbyniodd y cyngorwyr hefyd. Roedd y materion a godwyd yn rhai o'r materion a amlygwyd ar gyfer mynd i'r afael â nhw wrth symud ymlaen, ac roedd rhai eitemau'n cynnwys contractwyr. Eglurwyd y dylai'r system gael ei defnyddio yn lle cysylltu â'r Gwasanaeth perthnasol yn uniongyrchol.
- Cadarnhaodd rhai aelodau nad oeddent yn llythrennol yn dechnegol, ac fe wnaethant gyfaddef eu bod wedi cael hi'n anodd deall y system, ac y byddai hyfforddiant gloywi yn cael ei groesawu.
- Os yw ymholiad wedi cau, nid yw'r system yn caniatáu mynediad pellach, a all achosi rhwystredigaeth, a gobeithio bydd y broblem honno'n cael ei diwygio yn y dyfodol.

- Pan mae ymholiad wedi cau, nid oes rhagor o wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar yr adroddiad yn cael eu derbyn.  
Byddai esboniad i ganlyniad yr ymholiad yn ddefnyddiol. Eto, cafodd hyn ei gytuno gan swyddogion, ac yn cael ei graffu wrth symud ymlaen.

Felly:

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad ar weithrediad a pherfformiad System Rheoli Cyswllt Cwsmer C360, yn amodol ar y sylwadau uchod a'r meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella a'u cryfhau.

## 8 CYNLLUN CLUDIANT CYNALIADWY

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones Adroddiad y Cynllun Cludiant Cynaliadwy (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Yn 2019, pasiodd y Cyngor gynnig i ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

Yn y Cynllun Corfforaethol cyfredol, mae'r blaenoriaeth Cysylltu Cymunedau wedi'i chynnwys yn y prosiect "Galluogi pobl yn well i deithio i'r gwaith, addysg a gwasanaethau". Roedd cwrpas y prosiect yn eang iawn, a wnaeth hi'n anodd i nodi ymyriadau penodol a fyddai'n gwneud gwahaniaeth, er y gwaith ymchwil pellach a wnaed.

Yn dilyn trafodaeth yn y Bwrdd Rhaglen Gorfforaethol ym mis Hydref 2020 a Gorffennaf 2021, cafodd ei benderfynu oherwydd materion gyda'r prosiect uchod a'r angen i wneud gostyngiad carbon sy'n ganolog i unrhyw brosiectau sy'n ymwneud â chludiant, yna dylai'r ffocws fod ar ddatblygu Cynllun Cludiant Cynaliadwy.

Yn ystod trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae angen ystyried pobl ag anableddau yn y cynllun hwn.
- Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydanol - cam nesaf ym mis Mawrth/Ebrill 2022 oedd cam 1 ac fe'i gwelwyd fel cyfle i ddysgu, a byddai 30 pwynt gwefru ar gael mewn 8 lleoliad, a fyddai'n cynnydd sylweddol.  
Byddai swyddogion yn edrych ar ddefnydd data i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â defnydd y pwyntiau. Byddai'r dadansoddiad yn helpu i nodi'r cynllunio ar gyfer yr angen yn y dyfodol mewn perthynas â phwyntiau gwefru Cerbydau Trydan. Roedd modelau darpariaeth gwahanol posib yn y dyfodol hefyd e.e.: os oes rhagor o ddiddordeb gan y sector preifat yn nhermau rhentu'r gofod yn rhywbeth a edrychwyd arno hefyd. Dywedwyd wrth Aelodau bod Llywodraeth Cymru gyda Trafnidiaeth Cymru hefyd yn edrych ar y rhwydwaith ehangach, felly yn nhermau siwrneiau pell a'r rhwydwaith cefnffyrdd, roedd ganddynt brosiect lle fyddai pwyntiau gwefru wedi'u gosod yn gyson ar hyd y rhwydwaith cefnffyrdd. O ran pwyntiau gwefru mewn eiddo datblygiadau newydd, byddai hynny'n rhywbeth i edrych arno yn y dyfodol, mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Cynllunio.
- A oedd unrhyw ffigurau i ddangos bod newid i gerbydau trydan yn arbed arian, ac yn well o lawer i'r amgylchedd?

Cadarnhaodd swyddogion nad oeddent yn ymwybodol o'r ffigurau, gan y byddai'n debygol o fod yn rhy gynnar yn y cynllun i gael y ffigurau.

- Pan roedd mesurau teithio llesol yn mynd i effeithio ar gymuned, a fyddai sicrwydd gan swyddogion y byddai ymgynghoriad â chymunedau a'u bod yn derbyn gwybodaeth, a byddai gwybodaeth yn cael ei darparu i Grwpiau Ardal yr Aelodau er trafodaeth.

Byddai swyddogion yn cadarnhau y byddai Aelodau lleol a Grwpiau Ardal yr Aelodau yn ael eu cynnwys o gamau cynnar.

- Gellir cychwyn trafodaethau gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad yn y dyfodol mewn perthynas ag archwilio'r posibilrwydd o gael pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio sy'n cael eu rheoli ganddynt.

Serch hynny, gallai natur wledig y lleoliadau hyn fod yn rhwystr i gael argaeledd pŵer digonol ar gyfer pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan.

- Cafodd ei bwysleisio bod Teithio Llesol a Chynaliadwy yn ymgorffori pob dull cludiant, nid ceir yn unig, ac yn ceisio datrysiadau teithio integredig h.y. cerdded, beicio, bysus, trenau a cheir.

- Roedd cynllunio ar gyfer datrysiadau teithio cynaliadwy yn parhau i fod yn ei gamau dechreuol.

Roedd yn bwysig bod cynlluniau teithio cynaliadwy lleol, yn cysylltu gyda chynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd cludiant yn swyddogaeth ar gyfer sefydlu Cyd-Bwyllgor Corfforedig er mwyn sicrhau datrysiadau y gellir eu cyflawni. Byddai datrysiadau posib yn cael eu harchwilio yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Penderfynodd y Pwyllgor -

**PENDERFYNWYD:**

- (i) Cefnogi nodau ac amcanion y Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn amodol ar y sylwadau ac arsylwadau uchod ar gynnwys y Cynllun drafft Cludiant Cynaliadwy; a*
- (ii) wrth gefnogi'r Cynllun, cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Les i ystyriaeth yn Atodiad A fel rhan o'i benderfyniad.*

## **9 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu Rhaglen Gwaith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â'r materion canlynol:-

- Adroddiad ar y Cynllun Corfforaethol – efallai bydd ULIMaD yn ffurfio rhan o'r adroddiad ar y rhaglen waith ar gyfer 27 Ionawr 2022 ar Strategaeth Dai ehangach y Cyngor
- Cododd y Cynghorydd Martyn Holland faterion ynghylch BT yn ystod y cyfarfod, os yw'r eitem yn cael ei hychwanegu i gyfarfod yn y dyfodol, yna byddai angen cwblhau ffurflen a gellir ei drafod yng nghyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu a oedd yn cael ei gynnal yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm.**

|                                    |                                                                                                                                                                                         |
|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r</b>               | <b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>                                                                                                                                                      |
| <b>Dyddiad y cyfarfod</b>          | <b>27 Ionawr 2022</b>                                                                                                                                                                   |
| <b>Aelodau / Swyddog Arweiniol</b> | <b>Cynghorydd Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau)/a'r Cynghorydd Bobby Feely (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth) / Angela Loftus (Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai)</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad</b>          | <b>Jane Abbott (Uwch Swyddog Cynllunio Strategol a Thai)</b>                                                                                                                            |
| <b>Teitl</b>                       | <b>Cynnydd ar gyflawni Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych</b>                                                                                                                  |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. [Strategaeth Tai a Digartref Sir Ddinbych](#) a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 8 Rhagfyr 2020. Mae [crynodedb](#) o'r strategaeth wedi'i gynnwys yn **Atodiad A** ac mae tabl yn nodi cynnydd y Cynllun Gweithredu wedi'i atodi yn **Atodiad B**.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. I edrych ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma i gyflawni'r Strategaeth Tai a Digartrefedd a Chynllun Gweithredu a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 8 Rhagfyr 2020.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor Craffu yn nodi'r adroddiad, yn gwneud sylwadau ac yn parhau i fonitro cyflawniad y Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai a Digartrefedd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Cefndir

- 4.1 Mae Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych yn goson gweledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir ar gyfer y cyfnod 2021-2026. Mae'n ddogfen corfforaethol

bwysig i'r Cyngor ac yn darparu'r fframwaith i bob swyddogaethau sy'n berthnasol i dai a digartrefedd y Cyngor (preifat a chyhoeddus). Mae'r Strategaeth wedi'i gosod o fewn fframwaith y Cynllun Corfforaethol fel y nodir yn 5.1 ac wedi'i leoli ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r Strategaeth gyfredol yn nodi 6 "Thema" er mwyn targedu meysydd blaenoriaeth i'w gweithredu:

- Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol;
- Creu cyflenwad o dai fforddiadwy;
- Sicrhau cartrefi diogel ac iach;
- Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn Sir Ddinbych
- Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn;
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau.

4.2 Mae'r Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol (SHHG) yn goruchwylio cyflawni'r Cynllun Gweithredu, sydd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan yr Aelodau Arweiniol, Cynghorwyr Tony Thomas a Bobby Feeley sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Strategaeth Tai a Digartrefedd. Mae Aelodau o'r Grŵp yn cynnwys yr Aelodau Arweiniol hynny â chyfrifoldeb am ardal o dai neu digartrefedd o fewn eu portffolios, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai.

4.3 Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn monitro ac adolygu cynnydd, gyda mewnbwn gan wahanol Benaethiaid Gwasanaeth a swyddogion sydd yn rhan o gyflawni camau gweithredu unigol. Unrhyw faterion posibl i fodloni targedau yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl. Yn ogystal, mae'r Grŵp yn goruchwylio dyraniad Grant Tai Cymdeithasol sydd yn cael ei ddyrannu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddwyn ymlaen datblygiad tai fforddiadwy gan Gymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol, ac ar hyn o bryd mae'n oddeutu £7 miliwn y flwyddyn. Mae'r cyllid yn cael ei reoli'n lleol gan y Cyngor.

4.4 Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu 40 pwynt. Mae'n nodi cyfrifoldebau mewn mwy o fanylder o'r timau perthnasol o fewn y Cyngor, a sut ydym yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i gyflawni gweledigaeth y Cyngor i dai a digartrefedd. Mae'r Strategaeth yn ddogfen fyw ac mae camau gweithredu yn cael eu hychwanegu fel mae gwaith yn mynd rhagddo ac eraill wedi eu cwblhau. Mae gan y Strategaeth Tai a Digartrefedd hyd bywyd o bum mlynedd (2021 – 2026) a bydd angen ei hadolygu yn 2026.



## **Meysydd allweddol o gynnydd**

4.5 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei fonitro ym mhob cyfarfod o'r SHHG, er cafodd ei gydnabod bod y Strategaeth wedi cael ei mabwysiadu'n ddiweddar a bod cyfyngiadau o ran arferion gwaith oherwydd y pandemig, roedd y gwaith wedi cael ei gyfyngu i ddechrau, dechreuodd adolygiadau manwl o'r themâu yn chwarter tri. Mae'r tri thema cyntaf wedi cael eu hadolygu. Dyma uchafbwyntiau o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni o'r themâu hyn:

- Cofnod orau o 439 o dai newydd wedi cwblhau yn y cynllun tai, sydd yn cyfrannu at y canlyniad tai fforddiadwy blynyddol uchaf wedi'i gyflawni gan Gyngor Sir Ddinbych o 174 uned fforddiadwy.
- Lansio a hyrwyddo Gwasanaeth Paru Cartrefi Gwag, sydd wedi cynhyrchu diddordeb cadarnhaol.
- Drafft wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.
- Eleni am y tro cyntaf mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael mynediad at £1.4 miliwn o Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2021/22, a mynediad at gynnig i rannu cyllid SHG o £7 miliwn ar gyfer 2022/23 a 2023/24.
- Mae gwaith wedi dechrau ar yr adeilad newydd anheddau'r Cyngor ym Mhrestatyn a Dinbych, a disgwylir y byddant wedi cwblhau erbyn mis Ebrill 2022.
- Datblygu Strategaeth Asedau Tai y Cyngor drafft yn diffinio dyheadau'r Awdurdod i ddatblygu a chynnal a chadw gan gynnwys ymrwymadau di-garbon.
- Adolygu portffolio stoc Cyngor Sir Ddinbych i gael mynediad at hyfywedd i addasu i fodloni anghenion o ran tai yn y dyfodol.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi arwain ar wella monitro cyllid SHG gyda Llywodraeth Cymru – gam symleiddio monitro ac adrodd, a gwella dadansoddiad o Ddarpariaeth Dai ledled Cymru.
- Gwybodaeth fanwl ar anghenion yn cael ei ddarparu i geisiadau cynllunio i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau.
- Mae Rhentu Doeth Cymru wedi ei weithredu'n llwyddiannus yn Sir Ddinbych.
- Archwiliadau o bob eiddo yn cael i nodi gan y tîm Digartrefedd i ddinasyddion, cyn rhoi tenantiaethau.

- Datblygu polisi dirwyon a gweithdrefnau ar gyfer peidio ag ymgysylltu na chydymffurfio gyda'r Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni (MEES).
- Trwyddedu ychwanegol o'r cynllun Tai Amlfeddiannaeth wedi ymestyn i gynnwys Prestatyn, Dinbych a Llangollen.
- Datblygu Strategaeth Benthycy Cyfrif Refeniw Tai newydd sydd yn ystyried y newidiadau i ganiatáu lefelau benthycy a chapio i fwyhau cyfleoedd i raglenni datblygu a chynnal a chadw tai.
- Datblygu cynllun busnes 30 mlynedd yn cynnwys datblygiad newydd a rhaglenni cynnal a chadw cyfalaf.

4.6 O'r 40 cam gweithredu a nodwyd, mae 9 wedi'i gynnwys mewn darpariaeth gweithredol fel 'busnes yn ôl yr arfer', mae 23 cam gweithredu i'w ddarparu o fewn amserlenni penodol, mae ychydig o lithriant ar 8 cam gweithredu yn unol â'r amserlenni gwreiddiol a nodwyd, oherwydd effaith Covid-19. Mae hyn wedi cyfyngu ar y rhaglen cynnal chadw Safon Ansawdd Tai Cymru, er enghraifft i waith y tu allan neu yn achos Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi effeithio ar ymgynghoriad a gofynion casglu tystiolaeth, ond bellach mae ganddynt i gyd derfynau amser diwygiedig a chynlluniau mewn lle i'w cwblhau, mae'r gweddill dal ar y gweill i'w cyflawni o fewn y terfynau amser a gytunwyd arnynt.

4.7 Mae thema pedwar yn delio â digartrefedd yn Sir Ddinbych yn cael ei adolygu'n fwy manwl yng nghyfarfod mis Mawrth o'r SHHG, fodd bynnag mae rhai camau gweithredu ar y gweill i'w cwblhau megis:

- Caffael ar adeilad i ddarparu llety digartrefedd dros dro i deuluoedd yn Sir Ddinbych.
- Adolygu Grant Cymorth Tai i sicrhau bod lefelau gwahanol o gefnogaeth ar gael i amrywiaeth o anghenion.
- Integreiddio rhaglen Tai Yn Gyntaf i'r Llwybr Cefnogi Digartrefedd

4.8 Thema pump - Tai a chymorth i bobl ddi-amddiffyn a thema chwech - Hyrwyddo a chefnogi cymunedau a fydd yn cael eu hadolygu yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2022. Roedd y camau gweithredu a gyflawnwyd eisoes yn cynnwys:

- Cyfleuster Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn yn Dinbych wedi'i gwblhau

- Cynllun ‘Stepen eich drws’ wedi’i osod yn y safle adeiladu newydd yng Ngallt Melyd, yn darparu cartrefi i 4 oedolyn.
- Strategaeth Ymgysylltu Tenant wedi’i datblygu a’i gweithredu
- Gweinyddiaeth Un Llwybr Mynediad at Dai o’r bartneriaeth wedi’i adolygu

4.9 Y prif heriau a brofwyd i ddarparu’r Strategaeth wedi’u cysylltu â’r ymateb i argyfwng Covid-19. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol angen ymgynghoriad ac ystyriaeth ar yr effaith tymor hir y pandemig ar ofynion tai. Bydd oedi i’r CDLI yn cael effaith ar waith arall sydd yn ddibynnol ar y CDLI ac argaeledd safle. Datgarboneiddio y stoc dai cymdeithasol mewn ymateb â’r newid hinsawdd, yn amodol ar ddyraniad cyllid grant ychwanegol er mwyn ei gyflawni. Mae’r newid mewn methodoleg gan Lywodraeth Cymru wedi rhwystro’r datblygiad o’r Asesiad Marchnad Dai Lleol newydd.

4.10 Gall ymddangos o’r cynllun gweithredu amgaeedig bod cynnydd yn cael ei wneud ar y Strategaeth Tai a Digartrefedd ac yn cefnogi Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor.

## **5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae chwe themâu’r Strategaeth Dai a Digartrefedd a fanylir yn **Atodiad A** yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol – tai, yr amgylchedd, pobl ifanc a chymunedau cadarn.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Bydd costau’r prosiectau’n cael eu monitro’n agos. Bydd yr holl gostau’n cael eu cadw o fewn y gyllideb – rhai ni a’n partneriaid.

## **7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

7.1. Cyflawnwyd Asesiad o Effaith Iles ar gyfer y Strategaeth Tai a Digartrefedd, ond nid yw’n ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn gan ei fod yn cyflwyno diweddariad ar gynnydd.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Mae ymgynghoriad ac ymgysylltiad sylweddol wedi'u cyflawni i ddatblygu Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych ac amlinellwyd yn adroddiad i'w Cyngor yn ceisio cymeradwyaeth o'r Strategaeth ym mis Rhagfyr 2020.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Bydd angen asesu goblygiadau cost llawn cynigion penodol sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r Strategaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae sicrhau fod pobl yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae ystod o fecanweithiau mewn lle i fonitro cynnydd, gan gynnwys adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol ac adroddiadau pan mae'n ofynnol gan y Pwyllgor Craffu.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Tai 1985 (A8), Deddf Tai 2004 (A8), Deddf Llywodraeth Leol 2003 (A87), Deddf Tai (Cymru) 2014.

11.2. Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu wedi'u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.1(e) a 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

# **Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych Crynodeb 2021 - 2026**

# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

### Cynnwys

|                                                                         |    |
|-------------------------------------------------------------------------|----|
| Cynnwys .....                                                           | 2  |
| Cyflwyniad .....                                                        | 3  |
| Thema un: Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol .....        | 14 |
| Thema Dau: Creu Cyflenwad o Dai Fforddiadwy .....                       | 17 |
| Thema Tri: Sicrhau Tai Diogel ac Iach.....                              | 21 |
| Thema Pedwar: Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn Sir Ddinbych ..... | 25 |
| Thema Pump: Cartrefi a Chefnogaeth i Bobl Ddiamddiffyn .....            | 29 |
| Thema Chwech: Hyrwyddo a Chefnogi Cymunedau .....                       | 33 |

# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

### Cyflwyniad



Mae'r Cynghorydd Tony Thomas yn ei rôl fel Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau a'r Cynghorydd Bobby Feeley yn ei rôl fel Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yn cyflwyno'r Strategaeth i chi.

Cafodd y Strategaeth Dai ei mabwysiadu ar 1 Rhagfyr 2015 ac roedd yn para am bum mlynedd. Mae'n cynnwys gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ar gyfer tai yn y Sir yn ystod y cyfnod hwn.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae materion gwahanol wedi bod yn amlwg ac mae'r Strategaeth wedi'i hadolygu'n llwyr i gymryd i ystyriaeth Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych, newid hinsawdd a newid ecolegol, digartrefedd a heriau pobl ifanc gyda thai.

I adlewyrchu'r pwyslais mwy ar fynd i'r afael â digartrefedd yn y Strategaeth ddiwygiedig hon, mae hefyd wedi'i hailenwi y Strategaeth Dai a Digartrefedd ac mae thema wedi'i neilltuo i'r prif bryderon a phrosiectau mewn perthynas â digartrefedd.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys dwy weledigaeth:

*'Bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion, o fewn cymunedau bywiog a chynaliadwy Sir Ddinbych'*

a

*'Rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn Sir Ddinbych'.*

# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

Nod y Strategaeth yw darparu mwy o dai i fynd i'r afael ag anghenion o ran tai preswylwyr Sir Ddinbych, gan sicrhau fod tai o ansawdd da, cefnogi pobl gyda'u materion tai, mynd i'r afael â digartrefedd a chefnogi cymunedau.

Mae'r materion hyn wedi eu rhannu'n chwech thema:

- Thema 1: Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol
- Thema 2: Creu Cyflenwad o Dai Fforddiadwy
- Thema 3: Sicrhau Tai Diogel ac Iach
- Thema 4: Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn Sir Ddinbych
- Thema 5: Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn
- Thema 6: Hybu a Chefnogi Cymunedau

Mae'r Strategaeth Dai a Digartrefedd yn cynnwys:

- Y Strategaeth – sy'n darparu cyd-destun ar gyfer y dull ac mae'n nodi'r deilliannau lefel uchel
- Cynllun Gweithredu – a fydd yn cael ei fonitro a'i ddiweddarau'n rheolaidd drwy oes y Strategaeth

Mae'n cael ei gydnabod drwy'r Strategaeth bod Tai a Digartrefedd yn gyfrifoldeb ystod o adrannau ar draws y Sir. Mae atebion yn aml yn cael eu datblygu gyda phartneriaid allanol, yn ogystal â thrwy'r Awdurdod. Mae dull partneriaeth yn cael ei sefydlu yn y prosiectau sy'n anelu i ddarparu'r Strategaeth.

Mae'r Strategaeth Dai a Digartrefedd ar gyfer Sir Ddinbych wedi'i datblygu yn dilyn ymgynghoriad sylweddol o fewn a'r tu allan i Gyngor Sir Ddinbych. Bydd y Strategaeth yn cael ei monitro'n agos drwy'r Grŵp Monitro Tai a Digartrefedd Strategol a diweddariadau cynnydd fel bo'r angen i'r pwyllgor.

Tony Thomas          Bobby Feeley



# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

### Crynodeb Gweithredol

Mae Strategaethau Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych wedi cael eu datblygu o amgylch y weledigaeth:

*‘Bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion, o fewn cymunedau bywiog a chynaliadwy Sir Ddinbych’*

a

*Rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn Sir Ddinbych.*

Mae Strategaethau Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych wedi eu huno yn un Strategaeth drosfwaol i adlewyrchu'r ffaith bod yr holl faterion maent yn ceisio rhoi sylw iddynt yn gysylltiedig ac angen sylw gan sectorau ar draws y Cyngor a phartneriaid trydydd sector.

I gyflawni'r gweledigaethau uchelgeisiol hyn mae'r Strategaeth drosfwaol wedi'i dyfeisio o dan chwech thema, y cyfan wedi eu cysylltu:

1. Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol
2. Creu Cyflenwad o Dai Fforddiadwy
3. Sicrhau cartrefi diogel ac iach
4. Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn Sir Ddinbych
5. Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn
6. Hyrwyddo a chefnogi cymunedau

Mae cynyddu'r cyflenwad tai ar draws Cymru yn fater mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i roi sylw iddo ac maent wedi datblygu'r rhaglen 'Symud Cymru Ymlaen, 2016 – 2021' mae gan y rhaglen uchelgais i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy.

Mae ymchwil yn nodi bod gan Sir Ddinbych, yn unol â gweddill Cymru brinder o

# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

ddatblygiadau adeiladu newydd, tai fforddiadwy, cartrefi i bobl hŷn a chartrefi i oedolion diamddiffyn Mae Sir Ddinbych yn anelu i ddelio gyda'r diffyg hwn drwy ystod o fesurau.

Bydd y rhain yn cynnwys 170 o dai cyngor ychwanegol; 260 o dai fforddiadwy wedi eu darparu drwy ddatblygwyr preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; gan ddod â 500 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a darparu tai gofal ychwanegol.

Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017 – 2022 gyda blaenoriaeth i 'sichau mynediad i dai o ansawdd da' a tharged datblygu 1000 o dai ychwanegol ar draws y Sir yn ystod oes y cynllun.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Tai Fforddiadwy Annibynnol yn 2019. Mae hwn wedi gwneud argymhellion fydd yn effeithio'n sylweddol ar ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd yng Nghymru mewn blynyddoedd i ddod. Mae angen cynnwys hyn yn y Strategaeth Dai a Digartrefedd newydd.

Roedd Sir Ddinbych wedi datgan argyfwng hinsawdd ym mis Gorffennaf 2019 ac mae yn y broses o lunio cynllun gweithredu di-garbon. Un o gamau allweddol y cynllun hwn fydd yr ymrwymiad i uwchraddio asedau adeiladau'r Cyngor, fel tai a swyddfeydd y Cyngor i ddiwallu'r ymrwymiad addewid di-garbon erbyn 2030. Mae'r argyfwng hinsawdd yn ddylanwad mawr ar benderfyniadau'r Cyngor a bydd hefyd yn effeithio ar gydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Thema Un:** Mae **Mwy o Gartrefi i Ddiwallu'r Galw a'r Angen Lleol** yn mynd i'r afael â materion cyfraddau datblygu isel yn Sir Ddinbych, a'r angen am fwy o dai ar draws y Sir.

Er mwyn helpu i ysgogi'r farchnad ddatblygu rydym wedi cyflwyno briffiadau datblygu safle a phrosiectws datblygu tai sy'n darparu eglurder a gwybodaeth gyffredinol ar gyfer datblygwyr a buddsoddwyr am safleoedd tai a ddyrannwyd.

Rydym yn datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd ar hyn o bryd fydd yn cynnwys dyraniadau tir ar gyfer datblygu tai hyd at 2033. Bydd y datblygiad newydd yn arwain at hwb yn y cyflenwad o dai fforddiadwy sy'n derbyn sylw yn y thema nesaf.

# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

**Thema Dau: Creu Cyflenwad o Dai Fforddiadwy**, drwy'r thema hon rydym yn ymchwilio i'r cyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy yn y sir a pha fentrau y gallwn eu datblygu i'w gynyddu. Mae ymchwil yn dangos bod yna angen amlwg am dai fforddiadwy yn y sir, gyda 57% o brynwyr tai am y tro cyntaf ac aelwydydd newydd yn methu fforddio prynu tŷ 2 ystafell wely ar y farchnad agored<sup>1</sup>. Mae incwm gostyngol a llonydd yn y sir yn ffactor sy'n cyfrannu at y farchnad dai araf, ac yn tanlinellu'r pwysigrwydd i fwy o dai fforddiadwy gael eu creu.

Rydym wedi sefydlu rhaglen fuddsoddi a chyflenwi tai fforddiadwy ar gyfer Sir Ddinbych. Mae hyn wedi'i ddatblygu drwy'r cynllun busnes deg mlynedd ar hugain Cyfrif Refeniw Tai a hefyd drwy gymryd mantais o ffynonellau cyllid eraill fel y Rhaglen Tai Arloesol o gyllid a Chyllid Tai ac Iechyd. Gweithio gydag ystod o bartneriaid datblygu, landlordiaid cymdeithasol eraill a'r sector preifat a mynediad i Awdurdodau Lleol i Grant Tai Cymdeithasol o 2021/22 hefyd yn agor llif o gyllid arall i ddatblygu mwy o dai fforddiadwy.

**Thema Tri: Sicrhau Cartrefi Diogel ac Iach** yn archwilio'r mater o wella a chynnal safonau llety cyhoeddus ac eiddo preifat, i sicrhau bod preswylwyr yn byw mewn cartref diogel a gynhelir yn dda.

Mae Sir Ddinbych wedi cynnal rhaglen fawr o adnewyddiadau a gwaith mawr i ddiwallu Safon Ansawdd Tai Cymru a bydd drwy waith y Rhaglen Atgyweiriadau Mawr yn parhau i wella. Mae yna hefyd gynlluniau peilot yn cael eu gweithredu ar fesurau ynni adnewyddadwy, fydd yn cael eu cyflwyno fesul cam i weddill y stoc dai, ble bo'n bosibl. Mae datgarboneiddio stoc dai cymdeithasol wedi cael ei wneud yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru ac mae angen ei ystyried yn ffactor ac yn ariannol ar gyfer unrhyw gynlluniau rheoli tai wrth symud ymlaen.

---

<sup>1</sup> Asesiad Marchnad Tai Lleol Sir Ddinbych Gorffennaf 2019

# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

Mae Sir Ddinbych hefyd wedi bod yn ddylanwadol yn gweithredu'r Cynllun Cofrestru Landlord, fydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â safonau tai o ansawdd gwael yn y sector rhentu preifat.

**Thema Pedwar: Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn Sir Ddinbych** mae angen adolygu'r dewisiadau llety brys ar gyfer teuluoedd yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd. Ar hyn o bryd mae yna ddibyniaeth ar y sector rhentu preifat i ddarparu'r llety hwn, ond mae ansawdd, cynaliadwyedd a lleoliad yn amrywio'n sylweddol.

Dewisiadau amgen i ddarparu'r llety hwn. Bydd hyn yn sicrhau fod pobl sy'n profi sefyllfaoedd anodd iawn yn gallu cael mynediad i lety brys o ansawdd da tra'n derbyn y cyngor a chymorth mwyaf priodol.

**Thema Pump: Cartrefi a Chefnogaeth i Oedolion Diamddiffyn**, mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos demograffeg Sir Ddinbych, yn dangos bod yna angen sylweddol am fwy o ddewisiadau tai ar gyfer y sector pobl hŷn yn y sir sy'n codi a hefyd i oedolion diamddiffyn.

Rydym wedi ymrwmo i ddarparu tri o Gyfleusterau Tai Gofal Ychwanegol pellach, gan weithio gyda phartneriaid fydd yn mynd i'r afael ag anghenion newidiol preswylwyr. Rydym hefyd wedi adolygu'r dewisiadau llety tai ychwanegol; sydd wedi sicrhau bod dewisiadau llety, fel cynlluniau Byw'n Annibynnol â Chymorth yn cynnwys ystod o ddewisiadau cefnogi, sy'n addas ar gyfer amrywiol anghenion.

**Thema chwech: Mae Hybu a Chefnogi Cymunedau Sir Ddinbych** yn anelu i fod yn lle mae pobl yn dymuno byw. I gyflawni'r weledigaeth hon, rydym angen creu cymunedau bywiog a chynaliadwy. Drwy ailddatblygu cymdogaethau a mynd i'r afael â safleoedd sy'n 'ddolur llygad' a chartrefi gwag, gallwn ddarparu amgylchedd y gall preswylwyr fod yn falch ohono.

Gallwn hefyd helpu preswylwyr y Cyngor i wella eu cymunedau drwy helpu i sefydlu grwpiau a gweithgareddau cymdogaeth, i fynd i'r afael â materion a chreu cydlyniant cymunedol. Er mwyn i hyn fod yn gwbl gynaliadwy bydd angen iddynt gael eu harwain gan bobl yn hytrach na'u harwain gan sefydliad.

# **Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych**

## **Crynodeb 2021 – 2026**

Mae materion sy'n ymwneud â Thai a Digartrefedd yn derbyn sylw gan amrywiol adrannau ar draws y Sir a sefydliadau Trydydd Sector ar draws y sir. Mae'r Strategaeth Dai a Digartrefedd yn cynnwys yr holl faterion a'r gwaith sy'n ofynnol i fynd i'r afael â nhw, mewn ffordd mwy strategol, mwyhau adnoddau a deilliannau ar gyfer preswylwyr Sir Ddinbych.

# **Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych**

## **Crynodeb 2021 – 2026**

### **Gweledigaeth**

Mae Tai yn un o'r pump Blaenoriaeth Corfforaethol i Sir Ddinbych ac mae'n cael ei adlewyrchu ar draws sawl cynllun busnes adrannol.

Cafodd y weledigaeth ar gyfer Strategaeth Dai Sir Ddinbych ei datblygu drwy ymarfer ymgynghori wedi'i hwyluso gan Brifysgol Glyndŵr ym mis Mehefin 2013 gyda phartneriaid tai, sefydliadau trydydd sector a'r cyhoedd. Cafodd y Weledigaeth hon ei hadolygu a'i chefnogi gan Gynghorwyr mewn gweithdy ym mis Ionawr 2020. Cafodd y weledigaeth Strategaeth Digartrefedd ei datblygu yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o ddigartrefedd ar draws Sir Ddinbych yn 2016.

Mae'r gweledigaethau yn cael eu cefnogi drwy chwech thema'r Strategaeth Dai a Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu i sicrhau bod dyheadau'r Sir yn cael eu cyflawni.

### **Monitro a Llywodraethu**

Bydd y Strategaeth Dai a Digartrefedd newydd yn cael ei monitro'n bennaf gan y Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol – Grŵp Aelod Arweiniol a Swyddogion fydd yn cyfarfod bob yn ail fis ac yn galluogi camau mwy strategol/corfforaethol ar gyfer Digartrefedd a Thai ar draws y Sir.

Mae'r cyfrifoldebau gweithredol ar gyfer darparu ystod o faterion tai wedi eu cynnwys o fewn y Strategaeth yn cael eu darparu drwy'r Gwasanaethau perthnasol, er enghraifft, mae Tai Cymdeithasol Awdurdod Lleol yn cael ei ddatblygu a'i gynnal gan Wasanaethau Cyllid ac Eiddo a'i reoli gan Gwsmeriaid a Chymunedau. Mae Mynd i'r Afael â Digartrefedd yn cael ei ddarparu a'i reoli gan Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.

Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi arwain at gynhyrchu'r Strategaeth Digartrefedd wreiddiol a chynllun gweithredu cysylltiol.

Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi arwain ar gynhyrchu'r Strategaeth Digartrefedd wreiddiol a chynllun gweithredu cysylltiol.


# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

Fodd bynnag, mae digartrefedd yn fater corfforaethol sy'n derbyn y sylw gorau drwy weithio mewn partneriaeth ar draws holl Wasanaethau CSDd perthnasol a sefydliadau partner.

Mae'r Strategaeth Dai a Digartrefedd yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd, a bydd yn gyfrwng ar gyfer cytuno ar flaenoriaethau digartrefedd a monitro cynnydd yn eu herbyn nhw. Bydd hyn yn galluogi integreiddio gwell a pherchenogaeth gorfforaethol o waith ar ddigartrefedd.

Bydd y Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol yn monitro ac yn adolygu cynnydd ar ddarparu camau a nodwyd drwy'r cynllun gweithredu gydag adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu a phwyllgorau eraill fel bo'r angen.



# Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych

## Crynodeb 2021 – 2026

### Y Cyd-destun Lleol

#### Poblogaeth ac Aelwydydd

---

